Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2023 – Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3951A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd 9

Systemau sicrwydd corfforaethol 15

Dull corfforaethol o gynllunio 19

Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol 23

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 27

Atodiad 2 – cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol 29

Atodiad 3 – ymateb sefydliadol i argymhellion yr archwiliad 33

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2023 yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC). Mae ein gwaith asesu strwythuredig wedi'i gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fodloni ei hun bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

2 Cynhaliwyd ein gwaith Asesu Strwythuredig 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymateb i waddol pandemig COVID-19 wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system sydd wedi cronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, mae cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â set ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder gweithlu, ac ystad sy'n heneiddio. Yn fwy nag erioed, felly, mae angen i gyrff y GIG a'u Byrddau gael trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn a all roi sicrwydd iddynt eu hunain, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel ac ymatebol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddoeth.

3 Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar drefniadau corfforaethol IGDC ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gyda ffocws penodol ar dryloywder, cydlyniant ac effeithiolrwydd y Bwrdd, systemau corfforaethol o sicrwydd, dull corfforaethol o gynllunio, a dull corfforaethol o ran rheolaeth ariannol. Nid ydym wedi adolygu trefniadau gweithredol IGDC fel rhan o'r gwaith hwn.

4 Mae ein gwaith wedi cael ei lywio gan ein gwaith asesu strwythuredig blaenorol, sydd wedi'i ddatblygu a'i fireinio dros nifer o flynyddoedd. Mae hefyd wedi'i lywio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cadw a Dirprwyo Pwerau
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol Llywodraeth Cymru
- Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru (Ail Argraffiad)
- Canllawiau arfer da perthnasol eraill

Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Mehefin 2023 a mis Medi 2023. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

5 Rydym hefyd yn darparu diweddariad yn yr adroddiad hwn ar gynnydd IGDC wrth fynd i'r afael ag argymhellion a oedd yn weddill a nodwyd mewn adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol yn **Atodiad 2**.

# Canfyddiadau allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod **trefniadau llywodraethu corfforaethol, sicrwydd, cynllunio a rheolaeth ariannol IGDG yn dda ar y cyfan, gyda rhai cyfleoedd i'w cryfhau ymhellach. Fodd bynnag, mae IGDC yn wynebu risgiau adnoddau, ariannol a buddsoddi sylweddol y bydd angen eu rheoli'n ofalus i sicrhau ei fod yn cyflawni blaenoriaethau uniongyrchol ac amcanion tymor hwy gan barhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol**.

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd

7 Canfuom fod gan **IGDC Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i wella rhai trefniadau ymhellach.**

8 Mae Bwrdd a phwyllgorau IGDC yn gweithredu'n briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Mae strwythur y pwyllgorau wedi'i wreiddio'n dda gyda chyfarfodydd a reolir yn dda, trefniadau da i gefnogi llif o sicrwydd, a gwybodaeth amserol o ansawdd da. Ceir craffu, herio a thrafodaeth dda yng nghyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau ar y risgiau, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r sefydliad. Yn ddiweddar, mae IGDC wedi cymryd cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglenni digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cymryd camau cadarnhaol i sefydlu pwyllgor newydd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni rhaglenni fel rhan o'i drefniadau llywodraethu corfforaethol. Fodd bynnag, bydd angen adolygu trefniadau cadeirio tymor hwy y pwyllgor newydd. Mae'r Bwrdd yn sefydlog, cydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gryfhau ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â staff IGDC, ond mae cyfleoedd yn parhau ar gyfer ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol mewn cyrff iechyd eraill.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

9 Canfuom fod **systemau sicrwydd IGDC yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol, ond mae cyfleoedd yn bodoli i wella rhai o'r trefniadau hyn ymhellach.**

10 Mae IGDC yn rheoli ei risgiau strategol a chorfforaethol yn effeithiol ac yn datblygu gwell dealltwriaeth o'i barodrwydd i dderbyn risg. Mae IGDC yn cynnal Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd o ansawdd uchel (FfSB) sydd mewn perchnogaeth lawn ac yn cael ei ddefnyddio'n weithredol gan y Bwrdd. Er bod pwyllgorau'n cynnal archwiliadau dwfn rheolaidd ar brif risgiau, mae lle i wneud mwy o ddefnydd o'r FfSB i lunio busnes Bwrdd a phwyllgorau. Mae trefniadau rheoli perfformiad rhesymol effeithiol ar waith. Fodd bynnag, mae lle i wella cynnwys adroddiadau er mwyn mynegi'n gliriach y camau sydd eu hangen i wella tanberfformio. Mae gan IGDC drefniadau sicrhau ansawdd effeithiol ac mae'n gwneud cynnydd da wrth weithredu'r dyletswyddau newydd o ansawdd a gonestrwydd. Mae ganddo hefyd

drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro gweithredu argymhellion archwilio mewnol ac allanol.

## Dull corfforaethol o gynllunio

11 Canfuom fod **trefniadau cynllunio IGDC yn parhau i aeddfedu, ond mae cyfleoedd yn parhau i ddatblygu cynlluniau cyflawni ategol manwl ar gyfer rhai cynlluniau corfforaethol a strategaethau i gefnogi monitro a goruchwylio effeithiol. Mae IGDC yn wynebu risgiau adnoddau a buddsoddi sylweddol a allai effeithio ar gyflawni ei flaenoriaethau strategol a thrawsnewidiol allweddol**.

12 Yn gyffredinol, mae dull IGDC o ddatblygu cynlluniau strategol a chorfforaethol yn effeithiol, gyda goruchwyliaeth a chyfranogiad da ar lefel Bwrdd. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2023-2026 yn fyrrach ac yn fwy cryno o'i gymharu â fersiynau blaenorol. Mae'n mynegi blaenoriaethau, amserlenni, canlyniadau a risgiau IGDC yn glir. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o flaenoriaethau yn y CTCI heb gael adnoddau, ac mae IGDC yn aml yn ymrwymo i weithio y tu allan i'w CTCI y cytunwyd arno, sy'n rhoi straen pellach ar adnoddau sefydliadol. Mae hyn yn creu risgiau cyflawni ac yn tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu'n well â phartneriaid yn ystod proses ddatblygu'r CTCI er mwyn deall gofynion a'r adnoddau i'w cyflawni nhw’n well.

13 Mae IGDC yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei strategaeth hirdymor ac mae'n dechrau gweithio ar gyflwyno model gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar gynnyrch i gefnogi’r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol a blaenoriaethau CTCI. Er y dylai'r dull newydd hwn ddod â sawl budd, mae rhai risgiau sylweddol yn gysylltiedig â'i weithredu y bydd angen eu rheoli'n ofalus. Ar hyn o bryd mae IGDC yn gwneud gwaith i ddangos ei werth i'r GIG ehangach yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf hyd yma, ac nid yw'r gwaith hwn yn gwarantu y bydd yn derbyn buddsoddiad ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Felly, bydd angen iddo gynllunio ar gyfer y senario hon pe bai'r risg o beidio â sicrhau adnoddau ychwanegol yn dod yn ffaith.

14 Mae gan IGDC drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar y gwaith o gyflawni’r CTCI. Gwelsom hefyd welliant yn ansawdd y cynlluniau busnes/cyflawni sy'n sail i rai strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o wybodaeth ar gael ar gyfer pob strategaeth gorfforaethol a chynllun, gan atal monitro cynnydd effeithiol. Mae lle hefyd i ddarparu strategaeth gliriach a chynllunio diweddariadau cynnydd i helpu'r Bwrdd i ddeall a ydynt yn cyflawni'r effaith a fwriadwyd.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

15 Canfuom fod **IGDC yn parhau i fod â dull effeithiol o gynllunio, monitro ac adrodd ariannol yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn heriau**

**ariannol a dibyniaeth ar arbedion anghylchol effeithio ar ei gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol**.

16 Cyflawnodd IGDC gydbwysedd ariannol ar gyfer 2022-23 ac mae'n rhagweld sefyllfa o fantoli’r gyllideb ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch y sefyllfa ariannol yn y blynyddoedd ariannol i ddod. Er bod ganddo drefniadau cynllunio ariannol a rheoli ariannol da, mae'n wynebu risgiau ariannol cynyddol ac mae'n parhau i orddibynnu ar arbedion anghylchol (swyddi gwag). Bydd y materion hyn yn gofyn am fwy o ffocws a thrylwyredd sefydliadol i leihau'r effaith ar gynaliadwyedd ariannol IGDC yn y dyfodol. Mae craffu a throsolwg ar berfformiad ariannol yn briodol, ond efallai y bydd angen i'r Bwrdd gryfhau ei drefniadau pe bai'r heriau ariannol yn cynyddu.

# Argymhellion

17 **Mae Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion sy'n codi o'n gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys amserlenni a'n hasesiad o flaenoriaeth. Mae ymateb IGDC i'n hargymhellion yn cael ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion 2023**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Trefniadau cadeirydd pwyllgor**<br>A1 Mae Cadeirydd y Bwrdd yn bwriadu cadeirio'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, o ystyried pa mor newydd yw’r pwyllgor a'i gylch gwaith, dylai'r trefniant hwn fod â chyfyngder amser er mwyn rhyddhau capasiti'r Cadeirydd a chefnogi llif sicrwydd annibynnol ac effeithiol. Dylai IGDC geisio penodi cadeirydd i'r Pwyllgor o'r garfan ehangach o Aelodau Annibynnol. **(Blaenoriaeth Uchel)** |
| **Straeon defnyddwyr gwasanaethau/staff**<br>A2 Mae cyfarfodydd bwrdd yn parhau i gynnwys eitem agenda ar wrando a dysgu, sy'n rhoi rhywfaint o fewnwelediadau i aelodau'r Bwrdd ar effaith digidol ar ddefnyddwyr gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach. Felly, dylai IGDC ymgysylltu â chyrff iechyd eraill neu Llais Cymru, i archwilio opsiynau er mwyn i aelodau'r Bwrdd glywed yn uniongyrchol oddi wrth ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol. **(Blaenoriaeth Ganolig)** |

**Argymhellion**

**Risgiau adnoddau a buddsoddi**

A3 Mae IGDC yn wynebu heriau adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau CTCI, ac efallai y bydd cwmpas ei waith trawsnewidiol arfaethedig yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru. Yng ngoleuni'r heriau hyn, dylai IGDC wneud y canlynol:

a) Bwrw ymlaen â'i waith 'cynnig gwerth' yn gyflym i ddangos effaith digidol ar draws GIG Cymru. **(Blaenoriaeth Uchel)**

b) Datblygu cynlluniau cyn gynted â phosibl sy'n ystyried ei flaenoriaethau mewnol ei hun a rhai rhanddeiliaid yn ofalus a'r hyn y gall ei gyflawni o fewn ei amlen adnoddau. **(Blaenoriaeth Uchel)**

**Cyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol**

A4 Er bod rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi'u seilio ar gynlluniau busnes/cyflawni clir, nid yw hyn yn wir am bob un ohonynt. Ar ben hynny, mae lle i wella ansawdd ac amlder yr adroddiadau diweddaru strategaeth a gyflwynir i'r Bwrdd. Dylai IGDC felly wneud y canlynol:

a) Sicrhau bod yr holl gynlluniau corfforaethol a strategaethau yn cael eu tanategu gan gynlluniau busnes/cyflawni manwl sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir i hwyluso monitro cynnydd effeithiol a sicrhau sicrwydd a chraffu lefel Bwrdd priodol. **(Blaenoriaeth Ganolig)**

b) Gwella ansawdd adroddiadau diweddaru strategaeth i'r Bwrdd a chynyddu amlder trosolwg i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cyflawni'r effaith a'r buddion a ddymunir. **(Blaenoriaeth Ganolig)**

**Cynaliadwyedd Ariannol**

**A5** Er bod IGDC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â chydbwysedd arbedion cylchol ac anghylchol, mae'n gorddibynnu ar arbedion swyddi gwag er mwyn cyflawni ei darged arbedion cyffredinol. Mae hyn yn parhau i fod yn risg pe bai'r sefydliad yn recriwtio i'r swyddi gwag, yn enwedig o ystyried y sefyllfa o ddiffyg a ragwelir ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Felly, dylai IGDC roi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig i'r tymor hir i gryfhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. **(Blaenoriaeth Uchel)**

# Adroddiad manwl

## Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y bwrdd

18 Gwnaethom ystyried a yw Bwrdd IGDC yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw.

19 Canfuom fod gan **IGDC Fwrdd sefydlog a chydlynol sy'n cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i wella rhai trefniadau ymhellach**.

### Tryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd

20 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i dryloywder cyhoeddus busnes y bwrdd a phwyllgorau. Rydym yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- Cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau sy'n hygyrch i'r cyhoedd
- Papurau'r Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd
- Busnes a phroses gwneud penderfyniadau y Bwrdd yn cael eu cynnal yn dryloyw
- Cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau ar gael i'r cyhoedd mewn modd amserol

21 Canfuom fod **Bwrdd IGDC yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau**.

22 Mae IGDC yn parhau i ddangos ymrwymiad cryf i dryloywder cyhoeddus busnes y Bwrdd a'r pwyllgorau. Gall aelodau'r cyhoedd ofyn am gyfle i arsylwi ar unrhyw gyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd a'r pwyllgorau drwy gysylltu â'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol. Mae IGDC yn annog hyn yn weithredol trwy hyrwyddo cyfarfodydd trwy ei sianelau cyfryngau cymdeithasol amrywiol yn y dyddiau sy'n arwain atynt.

23 Mae cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw ac yn cael eu recordio, tra bod cyfarfodydd pwyllgorau yn cael eu cofnodi'n unig. Cyhoeddir recordiadau yn gyffredinol ar wefan IGDC o fewn tri i bum diwrnod gwaith. Nid yw recordiadau o gyfarfod y Fforwm Partneriaeth Lleol a'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth yn cael eu cyhoeddi oherwydd natur sensitif a chyfrinachol yr wybodaeth y maent yn ei thrafod. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r Gymraeg ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus o'r Bwrdd, ac mae IGDC hefyd yn ceisio darparu Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL) ar gais. Ar hyn o bryd, nid oes gan IGDC unrhyw gynlluniau i gyflwyno cyfarfodydd cyhoeddus personol y Bwrdd neu bwyllgorau oherwydd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau rhithwir.

24 Mae IGDC yn parhau i wneud defnydd priodol o gyfarfodydd preifat y Bwrdd a'r pwyllgorau i drafod materion sensitif a chyfrinachol. Pan wneir penderfyniadau mewn cyfarfodydd preifat, mae'r manylion wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Cadeirydd neu adroddiadau ar y prif bwyntiau pwyllgorau a gyflwynir yng nghyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd. Cyhoeddir cofnodion cryno o gyfarfodydd

preifat hefyd i wella tryloywder ymhellach. Canfu ein gwaith arsylwi ar gyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor fod gonestrwydd a thryloywder da ymhlith aelodau'r Bwrdd, yn enwedig mewn cysylltiad â'r heriau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

25 Mae papurau ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgor yn parhau i gael eu cyhoeddi ar wefan IGDC wythnos ymlaen llaw yn unol â'r Rheolau Sefydlog, gyda dim ond un toriad[1]. Mae IGDC yn parhau i wneud defnydd arloesol o godau QR[2] i alluogi'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i gael mynediad at bapurau'r Bwrdd o ddyfais ddigidol. Mae'r arfer hwn bellach hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer papurau cyfarfod pwyllgorau.

26 Caiff cofnodion drafft eu llunio a'u cytuno mewn modd amserol, ac fe'u cymeradwyir yn ffurfiol yng nghyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd neu bwyllgor.

## Trefniadau i gefnogi ymddygiad busnes y Bwrdd

27 Gwnaethom ystyried a oes trefniadau priodol a thryloyw ar waith i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd a phwyllgor. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- Cadw a Dirprwyo Pwerau a Chynllun Dirprwyo ffurfiol, cyfredol ar waith ac ar gael i'r cyhoedd, sy'n nodi'n glir atebolrwydd;
- Rheolau Sefydlog (SOs) ffurfiol, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFIs) ffurfiol a chyfoes ar waith, ynghyd â thystiolaeth o gydymffurfiaeth;
- polisïau a gweithdrefnau ffurfiol, cyfredol a chyhoeddus ar waith i hyrwyddo a sicrhau uniondeb a phriodoldeb.

28 Canfuom fod gan **IGDC drefniadau da i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd**.

29 Mae IGDC yn parhau i fod â threfniadau da i gefnogi ymddygiad effeithiol busnes y Bwrdd. Mae'r trefniadau wedi'u nodi'n glir yn Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu IGDC. Mae'r Rheolau Sefydlog, y Cynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog i gyd yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan y Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, a'r Bwrdd. Yn ei gyfarfod cyhoeddus ym mis Medi 2023, bu'r Bwrdd yn ystyried ac yn cymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd newydd a rôl y corff llais dinasyddion, 'Llais Cymru[3]'.

[1] Cynhaliwyd cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd ym mis Ebrill 2023 lle nad oedd papurau ar gael o fewn yr amserlen hon. Fodd bynnag, gofynnodd y Cadeirydd i holl aelodau'r Bwrdd gadarnhau eu bod wedi derbyn gwybodaeth ddigonol a bod ganddynt ddigon o amser i'w hystyried cyn gwneud penderfyniad ar y mater dan ystyriaeth yn y cyfarfod.

[2] Mae cod QR (cod ymateb cyflym) yn fath o god bar sy'n hyperddolen i wybodaeth ddigidol.

[3] Mae Llais Cymru yn gorff sy'n cynrychioli cleifion, a disodlodd yr hen Gyngor Iechyd Cymuned.

30 Mae datganiadau o fuddiant yn parhau i gael eu gwneud ar ddechrau pob cyfarfod y Bwrdd a phwyllgorau. Mae trefniadau priodol hefyd ar gyfer datgan, trin a chofnodi datganiadau o fuddiant gan aelodau a staff y Bwrdd mewn swyddi Band 8a ac uwch. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r trefniadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn derbyn Adroddiad Safonau Ymddygiad ym mhob cyfarfod sy'n cynnwys datganiadau o fuddiant, rhoddion, lletygarwch a nawdd ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i dorri polisi. Mae'r Gofrestr Safonau Ymddygiad, a Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion a Lletygarwch ar gael ar wefan IGDC.

31 Mae IGDC wedi cryfhau ei brosesau ar gyfer monitro, tracio ac adolygu polisïau. Ar adeg ein hadolygiad, mae'r holl bolisïau yn cael eu rhoi ar system 'iPassport' y Tîm Ansawdd a Rheoleiddio a fydd yn rhoi gwybod i berchnogion polisi yn awtomatig pan fydd hi’n amser adnewyddu eu polisïau. Yn ddiweddar, mae amserlenni ar gyfer adolygu polisïau wedi cael eu newid o fod yn flynyddol i rai bob tair blynedd, er mwyn lleihau'r baich ar berchnogion polisi. Nododd Adroddiad Polisi Gorffennaf 2023 i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fod 53 o'r 88 o bolisïau sydd ar waith ar draws y sefydliad, wedi dyddio ac angen eu hadolygu.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

32 Gwnaethom ystyried a yw cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cynnal yn briodol ac yn effeithiol, ac yn derbyn gwybodaeth amserol, o ansawdd uchel sy'n cefnogi craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau effeithiol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- strwythur pwyllgor priodol, integredig yn gweithredu’n dda yn ei le, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a risgiau strategol allweddol, sy'n adlewyrchu canllawiau perthnasol, ac yn helpu i gyflawni gofynion statudol;
- agendâu a rhaglenni gwaith y Bwrdd a phwyllgorau sy'n ymdrin â phob agwedd ar eu Cylch Gorchwyl priodol yn ogystal â chael eu llunio'n barhaus gan Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau wedi'u cadeirio'n dda sy'n dilyn prosesau y cytunwyd arnynt, gydag aelodau'n arsylwi ar arferion cyfarfod a darparu cydbwysedd da o graffu, cefnogaeth a her;
- pwyllgorau yn derbyn ac yn gweithredu ar y sicrwydd gofynnol ac yn rhoi sicrwydd amserol a phriodol i'r Bwrdd;
- papurau Bwrdd a phwyllgorau clir ac amserol sy'n cynnwys y lefel angenrheidiol o wybodaeth sydd ei hangen/sy’n briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau effeithiol, craffu a sicrwydd.

33 Canfuom fod **cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn cael eu cadeirio'n dda, eu cynnal yn iawn, gydag agendâu cytbwys, ac yn cael eu cefnogi gan bapurau o ansawdd da. At hynny, cymerwyd camau cadarnhaol i addasu strwythur pwyllgorau i adlewyrchu rôl newydd y Bwrdd wrth oruchwylio rhaglenni digidol cenedlaethol**.

34 Mae IGDC yn parhau i fod â strwythur pwyllgor priodol, integredig sy'n gweithredu'n dda. Ar hyn o bryd mae wrthi'n sefydlu Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros lywodraethu a goruchwylio rhaglenni digidol cenedlaethol i IGDC. Disgwylir i gylch gorchwyl drafft gael ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2023, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo'n ffurfiol yn fuan wedyn. Mae Cadeirydd y Bwrdd yn bwriadu cadeirio'r Pwyllgor o ystyried pa mor newydd yw'r Pwyllgor a'i gylch gwaith. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, dim ond trefniant dros dro ddylai hwn fod er mwyn rhyddhau capasiti'r Cadeirydd, gyda'r pwyllgor yn rhoi'r sicrwydd annibynnol sydd ei angen arno fel Cadeirydd y Bwrdd (**Argymhelliad 1**).

35 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i weithio'n effeithiol. Mae ganddynt gylch gorchwyl cyfredol ac maent yn cynnal logiau gweithredu cynhwysfawr a chylchoedd busnes blynyddol. Mae cadeiryddion pwyllgorau yn cymryd rhan weithredol wrth osod agendâu cyfarfodydd, ac mae agendâu yn gytbwys ac yn canolbwyntio ar fusnes perthnasol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i IGDC wneud mwy o ddefnydd o'i Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i lunio busnes y Bwrdd a phwyllgorau (gweler **paragraff 57**). Mae IGDC yn parhau i wneud defnydd priodol o'r agenda gydsynio ar gyfer busnes arferol; mae hyn yn caniatáu mwy o amser i gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau ganolbwyntio ar faterion allweddol sy'n gofyn am graffu a throsolwg mwy manwl.

36 Caiff cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau eu rheoli'n dda gan eu cadeiryddion priodol, sy'n parhau i alluogi trafodaeth ar faterion allweddol ac annog cyfraniadau gan bob aelod. Mae aelodau'r bwrdd ac aelodau'r pwyllgorau yn parhau i gynnal arferion cyfarfod rhithwir da. Mae craffu a herio yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau yn briodol ac yn cael eu darparu mewn ffordd gefnogol. Fodd bynnag, mae pryderon ynghylch diffyg presenoldeb arferol y Cyfarwyddwr Gweithredol mewn rhai cyfarfodydd, ac mae pryder cydnerthedd o ran aelodaeth Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Mae IGDC yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r ddau fater.

37 Mae IGDC yn parhau i fod â threfniadau effeithiol ar waith i gefnogi llif sicrwydd o bwyllgorau i'r Bwrdd a chyfeirio gwybodaeth rhwng pwyllgorau. Er enghraifft, mae rhai Aelodau Annibynnol yn eistedd ar fwy nag un pwyllgor ac mae cyfarfodydd arferol rhwng Cadeirydd y Bwrdd a chadeiryddion pwyllgorau. Mae'r pwyllgorau'n trafod eitemau i'w huwchgyfeirio i'r Bwrdd ar ddiwedd pob cyfarfod. Yn ddiweddar, mae IGDC wedi gwella Adroddiad ar y prif bwyntiau y Pwyllgor i ymgorffori dull 'rhybuddio, cynghori a sicrhau'. Mae'r templed newydd yn crynhoi meysydd o ddiffyg cydymffurfio sydd angen sylw brys, meysydd sicrwydd, ac eitemau sydd angen eu monitro'n barhaus. Er ei fod yn dal yn y cyfnod cynnar, dylai'r templed alluogi'r Bwrdd i ganolbwyntio ar faterion allweddol sy'n codi.

38 Mae gan IGDC drefniadau da o hyd i sicrhau ansawdd ac amseroldeb yr wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau. Yn gyffredinol, mae'r papurau wedi'u strwythuro'n dda ac o hyd digonol. Nid ydynt yn rhy fanwl na thechnegol, ac maent yn cyfeirio'r darllenydd yn glir at risgiau a materion allweddol y mae angen

eu hystyried, sy'n cefnogi craffu, sicrwydd a gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae adroddiadau clawr yn parhau i ddilyn fformat Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad (SBAR[4]), ac mae asesiadau effaith yn cael eu cwblhau fel mater o drefn, gan gwmpasu ystod eang o feini prawf.

39 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i dderbyn adroddiadau sicrwydd rheolaidd ar gyfer meysydd o'r busnes sy'n dod o fewn eu cylch gwaith, gan gynnwys llywodraethu gwybodaeth, gwybodeg, gwasanaethau gwybodaeth, ymchwil ac arloesi, a'r Gymraeg. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu digon o wybodaeth ar gyfer sicrwydd a gwneud penderfyniadau.

40 Fodd bynnag, efallai y byddai IGDC yn dymuno ystyried sut y gall fireinio ei bapurau Bwrdd a phwyllgorau ymhellach o ystyried cyflwyno'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd a'r baich cynyddol y gallai hyn ei roi ar aelodau'r Bwrdd i adolygu a chraffu ar y papurau yn eu cyfanrwydd.

## Ymrwymiad y Bwrdd i glywed oddi wrth gleifion/defnyddwyr gwasanaethau a staff

41 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn hyrwyddo ac yn dangos ymrwymiad i glywed oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a staff. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- bod y Bwrdd yn defnyddio ystod o ddulliau addas i glywed oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a staff.

42 Canfuom, **er bod y Bwrdd wedi ymrwymo i gryfhau ei ymgysylltiad â staff IGDC, mae cyfleoedd yn parhau iddo ymgysylltu'n uniongyrchol â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol mewn cyrff iechyd eraill**.

43 Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn parhau i gynnwys eitem agenda ar wrando a dysgu sy'n canolbwyntio ar gyflawni rhaglenni neu wasanaethau. Er bod yr eitem hon yn parhau i roi rhywfaint o fewnwelediadau i aelodau'r Bwrdd ar effaith digidol ar ddefnyddwyr gwasanaethau clinigol, mae cyfleoedd yn parhau i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach trwy alluogi aelodau'r Bwrdd i glywed yn uniongyrchol oddi wrth ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol mewn cyrff iechyd eraill neu drwy 'Llais Cymru' (**Argymhelliad 2**).

44 Mae IGDC yn parhau i fod â mecanweithiau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ymgysylltu â'i staff ei hun trwy gylchlythyrau, erthyglau 'Mewnwelediadau Bwrdd', cyfarfodydd TenTalks[5] a chynadleddau staff. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai wneud mwy i ymgysylltu'n uniongyrchol â staff. O ganlyniad, mae wedi datblygu rhaglen ymgysylltu ar gyfer 2023-24 i alluogi aelodau'r Bwrdd i

[4] SBAR Situation, Background, Action, Recommendations.

[5] Mae TenTalks yn ddigwyddiadau cyfathrebu sefydliadol byw 30 munud a gynhelir ar bynciau penodol, er enghraifft, gwrth-dwyll, ymddygiad sefydliadol, a chyflwyniadau i aelodau'r Bwrdd.

ymgysylltu'n uniongyrchol â staff IGDC drwy ddiwrnodau uwch arweinwyr, a sesiynau ymgysylltu â staff.

## Cydlyniant y Bwrdd ac ymrwymiad i welliant parhaus

45 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn sefydlog ac yn gydlynol ac yn dangos ymrwymiad i welliant parhaus. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- Bwrdd sefydlog a chydlynol gyda chnewyllyn o uwch arweinwyr sydd â'r gallu, y sgiliau a'r profiad priodol;
- y Bwrdd a'i bwyllgorau yn adolygu eu heffeithiolrwydd yn rheolaidd ac yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio a chefnogi gwelliant parhaus;
- rhaglen berthnasol o ddatblygu, cefnogaeth a hyfforddiant Bwrdd ar waith.

46 Canfuom fod gan **IGDC Fwrdd cydlynol a sefydlog ynghyd â threfniadau cynefino, datblygu bwrdd, a threfniadau hunanadolygu da**.

47 Mae gan IGDC Fwrdd cydlynol a sefydlog, gyda chymysgedd eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiad. Mae wedi datblygu matrics sgiliau sy'n nodi priodoleddau aelodau'r Bwrdd o’u cymharu â meini prawf allweddol ac yn eu mapio i genadaethau, portffolios a galluogwyr strategol y sefydliad[6] i sicrhau’r cyfraniadau gorau ac i nodi unrhyw gryfderau, neu fylchau. Mae IGDC yn cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd trwy'r matrics sgiliau. Er enghraifft, drwy'r matrics sgiliau, mae'r Bwrdd wedi cydnabod nad oes ganddo gyfrifydd cymwys o fewn carfan yr Aelodau Annibynnol. Mae hyn wedi caniatáu i'r Cadeirydd a'r Bwrdd drafod ar y cyd, asesu a rheoli'r risg y mae hyn yn ei beri i IGDC mewn modd gwybodus. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd o'r farn bod y risg hon yn isel. Mae'r matrics sgiliau hefyd yn cael ei ddefnyddio i alluogi aelodau'r Bwrdd i ddeall sgiliau ei gilydd a sut y gallant ar y cyd gefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth a gweledigaeth IGDC.

48 Mae IGDC yn parhau i fod â threfniadau cynefino lleol effeithiol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Aelodau Annibynnol. Mae Aelodau Annibynnol hefyd yn parhau i gael arfarniadau ffurfiol ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu dysgu a'u datblygiad parhaus. Mae asesiadau aelodau 360 gradd wedi'u cwblhau ac mae aelodau'r Bwrdd yn nodi bod hwn yn ymarfer defnyddiol.

49 Yn adroddiad asesu strwythuredig y llynedd, dywedon ni fod IGDC wedi comisiynu Deloitte i wneud gwaith i gefnogi Datblygu'r Bwrdd a chydlyniant. Mae'r gwaith hwn ar y gweill gyda sesiynau amrywiol wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn yn canolbwyntio ar feysydd fel cytgord, craffu a herio effeithiol, llywodraethu da a

[6] Mae galluogwyr yn swyddogaethau sy'n cefnogi IGDC i gyflawni ei amcanion. Y rhain yw: pobl a diwylliant, cyllid, cynaliadwyedd, ymgysylltu â rhanddeiliaid, ansawdd a diogelwch a llywodraethu, perfformiad, a sicrwydd.

strategaeth. Yn gyffredinol, gwnaeth aelodau'r Bwrdd sylwadau cadarnhaol ar raglen Datblygu'r Bwrdd.

50 Yn ogystal â'r gwaith gyda Deloitte, mae IGDC hefyd wedi sefydlu blaenraglen waith datblygu a briffio ar gyfer 2023-24 sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd pwnc, megis parodrwydd i dderbyn risg, hyfforddiant seiberddiogelwch, a briffiau rhaglenni digidol. Mae hefyd yn defnyddio'r sesiynau fel mecanwaith ar gyfer ystyried a thrafod strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roedd ein gwaith arsylwi ar un sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn gadarnhaol. Roedd awyrgylch y cyfarfod yn hamddenol heb unrhyw densiynau amlwg, a oedd yn galluogi holl aelodau'r Bwrdd i gyfrannu'n weithredol at y drafodaeth a darparu heriau mewn ffordd gefnogol.

51 Mae trefniadau effeithiol i gefnogi hunanadolygu a gwerthuso'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn parhau i adolygu eu heffeithiolrwydd yn flynyddol. Mae'r adroddiad diweddaraf i'r Bwrdd yn dangos bod canfyddiadau'r arolwg yn gadarnhaol ar y cyfan heb unrhyw feysydd ar gyfer gwella na chamau gweithredu wedi'u nodi.

# Systemau sicrwydd corfforaethol

52 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

53 Canfuom fod **systemau sicrwydd IGDC yn gadarn ac yn gweithredu'n effeithiol, ond mae cyfleoedd yn bodoli i wella rhai o'r trefniadau hyn ymhellach**.

## Dull corfforaethol o oruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol

54 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar risgiau strategol a chorfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) cyfredol ac sydd ar gael i'r cyhoedd ar waith, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth berthnasol ar y risgiau i gyflawni blaenoriaethau/amcanion strategol y sefydliad;
- y Bwrdd yn perchnogi, adolygu, diweddaru a defnyddio'r FfSB i oruchwylio, craffu a mynd i'r afael â risgiau strategol;
- fframwaith rheoli risg priodol a chyfredol ar waith, sy'n seiliedig ar bolisïau, gweithdrefnau a rolau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar effeithiolrwydd y system rheoli risg;
- y Bwrdd yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar risgiau corfforaethol.

55 Canfuom fod gan **IGDC drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli ei risgiau strategol a chorfforaethol. Mae ei ddealltwriaeth o’r parodrwydd i dderbyn risg yn aeddfedu ac a ddylai gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach**.

56 Mae IGDC yn parhau i gynnal Fframwaith Sicrwydd Bwrdd manwl (FfSB) cynhwysfawr ac o ansawdd uchel y mae'r Bwrdd yn ei adolygu ddwywaith y flwyddyn (ym mis Mai a mis Tachwedd). Mae'r Bwrdd yn berchen ar y FfSB yn llawn, ac mae’n ei ddefnyddio'n weithredol fel offeryn i oruchwylio, craffu a mynd i'r afael â risgiau strategol. Canfu ein hadolygiad o'r FfSB ei fod yn cipio’r prif risgiau y mae IGDC yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd angen diweddaru'r FfSB pan fydd y sefydliad yn mabwysiadu strategaeth hirdymor newydd yn ffurfiol ac yn dod yn ffurfiol gyfrifol am oruchwylio’r gwaith o gyflawni rhaglenni.

57 Ers mis Mehefin 2023, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol bellach yn ymgymryd ag archwiliadau dwfn o brif risgiau IGDC. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, mae'r sefydliad yn wynebu risgiau ariannol, adnoddau a gweithredol cynyddol (gweler **paragraff 88**) a fydd yn gofyn am oruchwyliaeth fwy cadarn. Felly, efallai y bydd IGDC yn dymuno ystyried defnyddio'r FfSB i lunio busnes y Bwrdd a phwyllgorau yn barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar y materion cywir.

58 Rhoddodd adolygiad o'r FfSB gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, a adroddwyd ym mis Medi 2023,sgôr sicrwydd sylweddol ond nododd gyfleoedd i wella Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd. Argymhellodd Archwilio Mewnol y dylai Adroddiadau Sicrwydd y Bwrdd ddarparu gwybodaeth ychwanegol i ganiatáu i Aelodau'r Bwrdd adnabod ac asesu cynnydd yn hawdd dros amser a herio'r sgoriau hunansicrhau a ddarperir yn erbyn pob cenhadaeth strategol a phrif risg.

59 Mae IGDC yn parhau i fod â threfniadau rheoli risg effeithiol sy'n sail i'w FfSB, gyda pholisïau a gweithdrefnau clir ar waith. Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRC) yn mynegi risgiau gweithredol sydd â'r sgôr uchaf yn y sefydliad a'r camau ar gyfer eu lliniaru. Fodd bynnag, mae lle o hyd i fynegi rheolaethau presennol yn gliriach i leihau'r cyfle i orgyffwrdd â chamau lliniaru a sicrwydd.

60 Mae'r risgiau yn y CRC yn parhau i gael eu hadolygu'n fisol gan y Tîm Gweithredol, a ddyrennir i'r perchennog risg a'r pwyllgor sicrwydd perthnasol, ac fe'u hadolygir a'u herio gan Aelodau Annibynnol. Mae pwyllgorau’n adolygu risgiau sy'n sensitif yn fasnachol ac yn gysylltiedig â seiberddiogelwch mewn sesiynau preifat.

61 Caiff trefniadau rheoli risg eu hadrodd i'r Bwrdd a'i bwyllgorau fel mater o drefn, gyda diweddariadau yn rhoi trosolwg da o risgiau a uwchgyfeiriwyd, y rhai a gafodd eu dileu a newidiadau i'r sgôr risg. Mae'r map gwres risg yn rhoi asesiad da, drwy gipolwg, o broffil risg IGDC a symudiad risgiau corfforaethol ynddo.

62 Adroddodd y diweddariad diweddaraf i'r Bwrdd ym mis Medi 2023, am 28 o risgiau corfforaethol ar y CRC - 6 risg newydd, 19 risg heb unrhyw symudiad, 2 risg a oedd wedi gostwng, ac un risg a oedd wedi cynyddu. Mae hyn yn ostyngiad bach o'r 31 risg a gofnodwyd ym mis Mawrth 2023, y nifer uchaf hyd yma. Amlygodd y diweddariad hefyd y cynnydd yn nifer y risgiau ariannol a ychwanegwyd at y CRC dros y deg mis diwethaf a'r effaith a ddaw yn sgil hynny ar broffil risg y sefydliad.

Rydym yn gwneud sylwadau ar y risgiau ariannol yn fanylach ym **mharagraff 102**. Mae aelodau'r Bwrdd yn cydnabod y nifer uchel o risgiau corfforaethol ar y CRC. Nawr bod dealltwriaeth y Bwrdd o barodrwydd i dderbyn risg yn aeddfedu, dylai adolygu'r trothwyon sgorio a ddefnyddir yn rheolaidd i benderfynu pa risgiau gweithredol sy'n ymddangos yn y CRC.

63 Rhoddodd adolygiad ar wahân o drefniadau rheoli risg IGDC gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Mawrth 2023 sicrwydd sylweddol, gan ddod i'r casgliad fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran ymgorffori'r Strategaeth Fframwaith Rheoli Risg a Sicrwydd Bwrdd ar draws y sefydliad.

## Dull corfforaethol o oruchwylio perfformiad sefydliadol

64 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o nodi, goruchwylio a chraffu ar berfformiad sefydliadol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- fframwaith rheoli perfformiad priodol, cynhwysfawr, a chyfredol ar waith, wedi'i danategu gan rolau a chyfrifoldebau clir;
- y Bwrdd a'r pwyllgorau yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar berfformiad sefydliadol.

65 Canfuom fod **IGDC yn parhau i fod â threfniadau rheoli perfformiad rhesymol effeithiol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn bodoli i roi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i wella tanberfformio**.

66 Mae IGDC yn parhau i fod â threfniadau rheoli perfformiad rhesymol effeithiol ar waith. Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2022, yn nodi dull integredig o reoli perfformiad gan gwmpasu cynlluniau, adnoddau a chanlyniadau. Mae'r Fframwaith yn amlinellu'n glir rolau a chyfrifoldebau, trefniadau goruchwylio ac atebolrwydd, trefniadau uwchgyfeirio lleol, a phrosesau cymorth ac ymyrraeth cysylltiedig.

67 Caiff perfformiad ei adrodd i'r Bwrdd drwy'r Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig (APSI), sy'n rhoi trosolwg o berfformiad o'i gymharu ag ystod o ddangosyddion allweddol sy'n ymwneud â'r canlynol;

- cyllid;
- pobl a datblygiad sefydliadol;
- caffael strategol;
- perfformiad gweithredol;
- llywodraethu clinigol a gwybodaeth;
- llywodraethu corfforaethol;
- ansawdd ac ymgysylltiad.

68 Rydym hefyd yn nodi cynnwys dangosydd sy'n ymwneud ag argaeledd gwasanaethau TG, sy'n darparu cymhariaeth o berfformiad y flwyddyn bresennol a blaenorol a manylion ffrydiau gwaith allweddol sydd ar y gweill. Er bod yr

adroddiad yn darparu asesiad clir o berfformiad, mae lle o hyd i ddarparu naratif cliriach ar gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau'r Bwrdd bod tanberfformio neu amrywiad diangen ar gyfer rhai dangosyddion allweddol yn cael sylw. Yn gyffredinol, gwelsom graffu a herio cyfyngedig gan y Bwrdd o ran perfformiad sefydliadol ond nodwn fod y Bwrdd Rheoli yn cwblhau gwaith craffu manylach a herio'r APSI yn ei gyfarfodydd.

69 Rhoddodd adolygiad Archwilio Mewnol o'r trefniadau rheoli perfformiad ym mis Ionawr 2023 sicrwydd rhesymol a nododd gyfleoedd i wella fformat yr APSI a gwella prosesau adolygu rheoli perfformiad o fewn y cyfarwyddiaethau a'r trosolwg a ddarperir gan Fwrdd a phwyllgorau IGDC.

## Dull corfforaethol o oruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau

70 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- trefniadau corfforaethol ar waith sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn cyflawni ei ofynion o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020) newydd.
- fframwaith (neu debyg) ar waith sy'n cefnogi llywodraethu ansawdd effeithiol;
- strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd ar waith ar gyfer llywodraethu clinigol/ansawdd;
- y Bwrdd a'r pwyllgor perthnasol yn darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau.

71 Canfuom fod gan **IGDC drefniadau sicrhau ansawdd effeithiol a'i fod yn gwneud cynnydd da wrth weithredu'r dyletswyddau newydd o ansawdd a gonestrwydd**.

72 Mae trefniadau IGDC ar gyfer darparu sicrwydd ar gydymffurfiaeth ansawdd a rheoleiddiol, ac ansawdd a diogelwch clinigol yn effeithiol, gyda strwythurau sefydliadol clir a llinellau atebolrwydd ar waith ar gyfer y ddau faes.

73 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol yn cynnal goruchwyliaeth dda o gydymffurfiaeth ansawdd a rheoleiddiol ac ansawdd a diogelwch clinigol, yn y drefn honno. Mae'r APSI hefyd yn darparu crynodeb o berfformiad sy'n ymwneud â llywodraethu clinigol a gwybodaeth, cydymffurfiaeth ansawdd a rheoleiddiol, a gweithrediadau megis argaeledd gwasanaeth TG a digwyddiadau TG mawr. Dywedodd aelodau'r Bwrdd fod trefniadau adrodd yn glir, a'u bod yn gyffredinol yn fodlon ar lefel y sicrwydd a ddarperir yn y meysydd hyn.

74 Mae'r sefydliad yn gweithredu gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020) yn briodol. Canfu ein hadolygiad o 'fap ffordd' Dyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd IGDC fod llawer o'r gofynion sy'n ymwneud

â'r sefydliad naill ai'n cael eu gweithredu'n llawn neu eu bod yn y broses o gael eu gweithredu'n llawn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn derbyn diweddariadau cryno ar gynnydd o'i gymharu â Chynllun Gweithredu Dyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd IGDC trwy Adroddiad yr Uned Cydymffurfiaeth Ansawdd a Rheoleiddiol a Seibergadernid. Darperir diweddariadau ar gynnydd yn fisol hefyd i'r Tîm Gweithredol drwy'r APSI.

### Dull corfforaethol o dracio argymhellion

75 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar systemau ar gyfer tracio cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion a chanfyddiadau archwilio ac adolygu. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- systemau priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer tracio ymatebion i archwiliad ac argymhellion a chanfyddiadau adolygiadau eraill mewn modd amserol.

76 Canfuom fod gan **IGDC drefniadau effeithiol ar gyfer monitro a thracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol**.

77 Mae IGDC yn parhau i fod â threfniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro a thracio cynnydd yn erbyn argymhellion archwiliadau mewnol ac allanol. Mae swyddogion tracio yn derbyn manylion craffu a throsolwg manwl yng nghyfarfodydd wythnosol y Cyfarwyddwr Gweithredol pan fydd nifer uchel o gamau archwilio ar gyfer monitro gwell. Caiff cynnydd ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, gydag adroddiadau'n darparu trosolwg da o statws gweithredu'r holl argymhellion.

78 Canfu ein hadolygiad o'r Cofnod o Gamau Gweithredu Archwilio ym mis Gorffennaf 2023 fod IGDC yn parhau i wneud cynnydd da o ran cwblhau argymhellion archwilio, gyda 33 o'r 54 cam gweithredu wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a Gorffennaf 2023. Methodd dau gam â chwblhau erbyn eu dyddiad targed y cytunwyd arno, fodd bynnag, cyflwynwyd cais am estyniad i'r amserlen weithredu ar gyfer un argymhelliad yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Hydref 2023 ac mae'r llall wedi'i weithredu ers hynny. Roedd y 19 o gamau gweithredu a oedd yn weddill i gyd ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn eu dyddiad targed.

## Dull corfforaethol o gynllunio

79 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol a goruchwylio eu cyflawniad.

80 Canfuom fod **trefniadau cynllunio IGDC yn parhau i aeddfedu, ond mae cyfleoedd yn parhau i ddatblygu cynlluniau cyflawni ategol manwl ar gyfer rhai cynlluniau corfforaethol a strategaethau i gefnogi monitro a throsolwg effeithiol. Mae IGDC yn wynebu risgiau adnoddau a buddsoddi sylweddol a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau strategol a thrawsnewidiol allweddol**.

## Dull corfforaethol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau

81 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o gynhyrchu, goruchwylio a chraffu ar ddatblygiad strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- gweledigaeth a strategaeth hirdymor clir a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, wedi'u gwreiddio mewn iechyd poblogaeth, ac wedi'u llywio gan ddadansoddiad manwl a chynhwysfawr o anghenion, cyfleoedd, heriau a risgiau;
- trefniadau corfforaethol priodol ac effeithiol ar waith ar gyfer datblygu a chynhyrchu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), a chynlluniau corfforaethol eraill;
- y Bwrdd yn craffu ar y CTCI a chynlluniau corfforaethol eraill yn briodol cyn eu cymeradwyo.

82 Canfuom, **er bod gan IGDC ddull corfforaethol effeithiol o gynhyrchu strategaethau a chynlluniau, ei fod yn wynebu risgiau sylweddol a allai effeithio ar gyflawni blaenoriaethau strategol a thrawsnewidiol allweddol**.

83 Mae gweledigaeth ac amcanion strategol IGDC wedi'u hamlinellu'n glir yn ei CTCI ar gyfer 2023-2026. Mae hefyd wedi cymryd camau eleni i ddiffinio ei ddiben yn gliriach, sef canolbwyntio ar ddatblygu'r offer digidol cywir, a llwyfannau digidol craidd er mwyn galluogi gwell defnydd o ddata mewn partneriaeth â staff iechyd a phobl Cymru. Mae'r CTCI yn parhau i amlinellu blaenoriaethau'r sefydliad o ran arloesi digidol a safoni data cenedlaethol. Mae amcanion strategol IGDC yn cael eu hategu gan bum cenhadaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gweinidogol Llywodraeth Cymru a 14 portffolio galluogi sy'n amlinellu'r gwaith sydd ei angen i gefnogi ei weledigaeth. Eleni, mae'r CTCI yn cynnwys tri phortffolio newydd, sef: llwyfan data a gwasanaethau cyfeirio; pensaernïaeth agored a'r gallu i ryngweithredu; a gofal brys ac argyfwng.

84 Trafodwyd a chymeradwywyd y CTCI drafft 2023-2026 gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol. Ar y pryd, roedd IGDC yn rhagweld sefyllfa o ddiffyg ariannol ar gyfer pob un o'r blynyddoedd ariannol yn ystod oes y cynllun. Yn sgil hyn fe wrthododd Llywodraeth Cymru CTCI 2023-2026 ar y dechrau gan ofyn i IGDC gyflwyno cynllun blynyddol cytbwys. O ganlyniad, nododd IGDC nifer o gamau lliniaru a chynigion arbedion i gyflawni sefyllfa gytbwys ar gyfer 2023-24, a arweiniodd at Lywodraeth Cymru yn cymeradwyo CTCI 2023-2026 yn ffurfiol. Rydym yn trafod sefyllfa ariannol IGDC yn fanylach ym **mharagraff 99**.

85 Mae CTCI 2023-2026 yn gynllun byrrach a mwy cryno o'i gymharu â rhai blaenorol. Mae'n mynegi blaenoriaethau, amserlenni'r IGDC yn glir ar gyfer cyflawni, canlyniadau a risgiau. Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o flaenoriaethau heb gael adnoddau, sy'n tynnu sylw at risg cyflawni'r sefydliad. Mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach gan bryder rhai aelodau o'r Bwrdd fod IGDC yn ymrwymo i weithio y tu allan i'r CTCI y cytunwyd arno, sy'n anochel yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar

gael. Oherwydd yr heriau mewnol ac allanol sy'n wynebu IGDC bydd angen iddo wella ymhellach ei ymgysylltiad â phartneriaid yn ystod prosesau datblygu CTCI yn y dyfodol er mwyn deall blaenoriaethau digidol yn well ar draws y system gofal iechyd yng Nghymru, er mwyn sicrhau y rhoddir adnoddau iddynt ac y gellir eu hystyried yn briodol mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

86 Mae IGDC yn cyflwyno model gweithredu newydd sy'n canolbwyntio ar gynnyrch i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion strategol a'i flaenoriaethau CTCI. Rhagwelir y bydd y dull newydd yn dod â sawl budd, megis gwell aliniad adnoddau, ffrydiau ariannu cynaliadwy, arbedion effeithlonrwydd costau, a chanlyniadau gwerth cynnyrch. Fodd bynnag, mae yna hefyd rai risgiau newid, gweithlu a buddsoddi sylweddol y bydd angen i'r sefydliad eu rheoli'n ofalus fel rhan o'i waith cyflawni. Nid yw IGDC wedi gosod dyddiad 'mynd yn fyw' eto ar gyfer y model gweithredu newydd gan fod gwaith yn dal i fod yn y cyfnod datblygu.

87 Yn gadarnhaol, mae IGDC yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei strategaeth hirdymor. Cynhaliwyd nifer o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd gan roi cyfleoedd i aelodau'r Bwrdd gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth ar y cyd a thrafod y dull gweithredu. Mae'r Bwrdd yn bwriadu cymeradwyo'r strategaeth yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024.

88 Mae IGDC yn dechrau ar gyfnod allweddol wrth wireddu ei weledigaeth i ddarparu 'gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf'. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r sefydliad yn profi problemau adnoddau clir o ran cyflawni ei flaenoriaethau, ac efallai y bydd cwmpas ei waith trawsnewidiol yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol ar draws y GIG ehangach yng Nghymru. Mae aelodau'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol o'r risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â hyn. O ganlyniad, mae IGDC wedi dechrau rhywfaint o waith i ddatblygu ei 'gynnig gwerth' i ddangos effaith digidol ar draws GIG Cymru a'i rôl fel 'partner digidol dibynadwy.' Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi bod yn araf hyd yn hyn, ac nid yw'r gwaith hwn yn gwarantu y caiff fuddsoddiad ychwanegol o hyd. Felly, mae angen i IGDC gynllunio ar gyfer y senario hon pe bai'r risg o beidio â sicrhau adnoddau ychwanegol yn dod yn ffaith (**Argymhelliad 3**).

89 Mae'r broses ar gyfer datblygu strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach, megis Strategaeth Gofal Sylfaenol 2023-26 a strategaeth hirdymor IGDC, yn effeithiol. Rhennir strategaethau a chynlluniau corfforaethol gydag Aelodau Annibynnol i ddarparu adborth neu cânt eu trafod ar y cyd fel rhan o Sesiynau Datblygu'r Bwrdd, neu mewn gwahanol bwyllgorau a grwpiau cynghori cyn derbyn cymeradwyaeth ffurfiol yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Gwelsom dystiolaeth hefyd eu bod yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau'r mewnbwn mwyaf.

## Dull corfforaethol o oruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau

90 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar weithredu a chyflwyno cynlluniau corfforaethol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- cynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y CTCI, sy'n cynnwys blaenoriaethau/amcanion strategol clir a cherrig milltir CAMPUS[7], targedau a chanlyniadau sy'n cynorthwyo monitro ac adrodd;
- mae'r Bwrdd yn monitro gweithredu a chyflawni cynlluniau corfforaethol yn briodol, gan gynnwys y CTCI.

91 Canfuom, **er bod gan IGDC drefniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio'r gwaith o gyflawni ei CTCI, mae angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer goruchwylio cyflwyno strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill**.

92 Mae'r CTCI, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Strategaeth Gyfathrebu 2023-26 a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ystod 2023 o dan berchnogaeth glir y Cyfarwyddwr Gweithredol ac maent yn dangos aliniad ag amcanion strategol trosfwaol IGDC. Maent yn cynnwys amcanion strategol clir a dealladwy, sy'n cael eu hategu gan flaenoriaethau lefel uchel. Maent hefyd yn parhau i gael eu cefnogi gan drefniadau llywodraethu, cyflawni ac adrodd priodol.

93 Mae gan IGDC drefniadau effeithiol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar weithredu a chyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol. Mae CTCI 2023-26 yn parhau i gael ei ategu gan Gynllun Busnes clir sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir. Mae APSI IGDC yn parhau i ddarparu diweddariad chwarterol o'r cynnydd yn erbyn cyflawni amcanion strategol y sefydliad. Mae 'cynllun un dudalen' yr Adroddiad yn rhoi trosolwg defnyddiol o gynnydd yn erbyn pob portffolio sy'n cyd-fynd â phedair cenhadaeth strategol IGDC. Cefnogir hyn gan ddiweddariad naratif manylach sy'n rhoi sylwadau ar gyflawni, effaith a fwriadwyd, a sefyllfaoedd o bwys. Rydym hefyd yn nodi y bydd y Bwrdd yn derbyn adroddiad cynnydd hanner blwyddyn CTCI ym mis Tachwedd 2023.

94 Rydym hefyd yn nodi rhywfaint o welliant yn lefel yr wybodaeth a ddarperir mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach, megis y Strategaeth Gyfathrebu sy'n seiliedig ar gynllun cyflawni manwl. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y lefel hon o wybodaeth ar gael ar gyfer rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol eraill, megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (gweler **Atodiad 2**, **A1 2022**). Gwelsom hefyd gyfleoedd i wella ansawdd adroddiadau diweddaru ac amlder trosolwg y Bwrdd ar gyflawni'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol. Roedd adolygiad Archwilio Mewnol ar wreiddio'r Strategaeth Rhanddeiliaid hefyd yn nodi meysydd i'w gwella mewn perthynas â datblygu a gweithredu fframwaith perfformiad a

[7] CAMPUS yw'r acronym sy'n cyfateb i SMART Specific, Measurable, Achievable, Relevant, and Time Bound.

phroses dracio effeithiol i adrodd a monitro cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu a nodir yn y cynllun. Mae lle hefyd i wella trefniadau'r sefydliad ar gyfer rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cyflawni'r effaith a'r buddion a ddymunir. Mae IGDC yn nodi bod gwaith yn mynd rhagddo ar draws y sefydliad i sicrhau gwelliant yn y maes hwn (**Argymhelliad 4**).

# Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

95 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol.

96 Canfuom fod **IGDC yn parhau i fod â dull effeithiol o gynllunio, monitro ac adrodd ariannol yn gyffredinol. Fodd bynnag, gallai cynnydd mewn heriau ariannol a dibyniaeth ar arbedion anghylchol effeithio ar ei gynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol**.

## Amcanion ariannol

97 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o gyflawni ei amcanion ariannol allweddol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- y sefydliad yn cyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23, a'r cyfnod treigl o dair blynedd o 2020-21 i 2022-23;
- bod y sefydliad ar y trywydd iawn i gyflawni ei amcanion a'i ddyletswyddau yn 2023-24.

98 Canfuom fod **IGDC wedi cyflawni ei amcanion ariannol ar gyfer 2022-23 a'i fod yn rhagweld y bydd yn adennill costau ar gyfer 2023-24. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynghylch ei sefyllfa ariannol yn y blynyddoedd i ddod**.

99 Cyflawnodd IGDC ei amcanion ariannol i adennill costau ar gyfer gwariant refeniw a chyfalaf yn 2022-23. Yn yr adroddiad cyllid diweddaraf a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Medi 2023, roedd IGDC yn adrodd am danwariant refeniw a chyfalaf o £0.152 miliwn a £0.069 miliwn yn y drefn honno ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Awst 2023, a rhagwelodd sefyllfa o adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, ym **mharagraff 103**, rydym yn gwneud sylwadau ar fylchau cyllid refeniw a allai greu sefyllfa o ddiffyg yn y blynyddoedd dilynol.

## Dull corfforaethol o gynllunio ariannol

100 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar gynllunio ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o’r canlynol:

- trefniadau cynllunio ariannol corfforaethol clir a chadarn ar waith;
- y Bwrdd yn craffu ar gynlluniau ariannol yn briodol cyn iddynt gael eu cymeradwyo;

- arbedion cynaliadwy, realistig, ac wedi'u costio'n gywir a chynlluniau gwella costau ar waith sydd wedi'u cynllunio i gefnogi cynaliadwyedd ariannol a thrawsnewid gwasanaethau;
- y Bwrdd yn craffu ar arbedion a chynlluniau gwella costau yn briodol cyn eu cymeradwyo.

101 Canfuom fod gan **IGDC ddull rhesymol effeithiol o gynllunio ariannol a'i fod yn glir o ran ei heriau ariannol. Fodd bynnag, mae'n parhau i ddibynnu’n ormodol ar swyddi gwag i gyflawni targedau arbedion, nad ydynt yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hir**.

102 Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Ariannol IGDC ym mis Mawrth 2023 fel rhan o broses gymeradwyo'r CTCI. Mae'r cynllun yn rhagdybio cyllid o £162.4 miliwn, ac o'r rhain:

- mae £118.9 miliwn yn ymwneud â chyllid gan Lywodraeth Cymru, Cytundebau Lefel Gwasanaeth y GIG, Trwyddedu Digidol Cymru Gyfan, ac incymau amrywiol eraill;
- cyllid o £8 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ymateb i COVID-19;
- cyllid o £35.5 miliwn fel rhan o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol (DPIF).

103 Er y bu cynnydd bach mewn rhai ffrydiau cyllido, nododd y cynllun cychwynnol fwlch cyllid refeniw o oddeutu £1.9 miliwn, £3 miliwn, a £2 filiwn ar gyfer blynyddoedd ariannol 2023-24, 2024-25, a 2025-26 yn y drefn honno. Mae hyn oherwydd nifer o godiadau mewn costau na ellir eu hosgoi fel chwyddiant cyffredinol, cynnydd mewn costau cyflenwyr, twf i gefnogi gweithrediadau craidd, cynnydd mewn bygythiadau seiber, a mentrau ariannu DPIF sy'n trawsnewid i wasanaethau byw sydd bellach angen cyllid craidd. Ar ben hynny, bellach mae'n rhaid i IGDC amsugno costau ynni o fewn ei weithgareddau ei hun, a fydd yn cael effaith sylweddol ar yr arian sydd ar gael i fynd i'r afael â’r pwysau ar y ddarpariaeth o wasanaethau. Hefyd, bydd cyllid COVID-19 nawr dim ond yn talu costau gweithredol wrth symud ymlaen ac roedd y dyraniad cyllid ar gyfer 2023-24 ychydig yn llai nag y mae IGDC wedi gofyn amdano.

104 Yn adroddiad asesu strwythuredig y llynedd, gwnaethom sylwadau ar y materion sy'n ymwneud â chymhlethdod model cyllido DPIF. Er bod y materion hyn yn parhau, rydym yn deall bod IGDC a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos i gytuno ar fodel ariannu cenedlaethol a lleol mwy cynaliadwy. Nodwn hefyd fod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd bellach yn cynnwys y model cyllido fel risg ac yn mynegi rhai rheolaethau a chamau lliniaru lefel uchel (gweler **Atodiad 2, R2 2022**).

105 Mae dull IGDC o nodi arbedion yn weddol effeithiol ond mae cyflawni'r arbedion hynny yn peri risgiau i gynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Ariannol yn mynegi targed arbedion o £2.4 miliwn. Ers ei gymeradwyo cychwynnol, cynyddwyd y targed arbedion £1.9 miliwn i sefyllfa o adennill costau ac yna cynyddodd £0.726 miliwn ymhellach mewn ymateb i gais Llywodraeth Cymru bod pob corff iechyd yn nodi camau i gefnogi sefyllfa ariannol gyffredinol

GIG Cymru yn 2023-24. Mae Cynllun Ariannol IGDC bellach yn cynnwys targed arbedion cyffredinol o £4.978 miliwn. Nododd Adroddiad Cyllid mis Medi 2023 i'r Bwrdd fod £3.5 miliwn o'r targed hwn o arbedion wedi'u cyflawni hyd yma.

106 Er bod IGDC wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â chydbwysedd arbedion cylchol ac anghylchol, mae'n dal i ddibynnu'n sylweddol ar swyddi gwag (£1.764 miliwn) i gyflawni ei darged arbedion cyffredinol (gweler **Atodiad 2, R2 2022**). Mae hyn yn parhau i fod yn risg pe bai'r sefydliad yn recriwtio i'r swyddi gwag hyn. O ystyried y sefyllfaoedd o ddiffyg a ragwelir ar gyfer 2024-25 a 2025-26, bydd angen i IGDC roi mwy o bwyslais a thrylwyredd i gynyddu maint yr arbedion cylchol dibynnu llai ar arbedion anghylchol (swyddi gwag) i leihau'r risg i'w gynaliadwyedd ariannol. **(Argymhelliad 5).** Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud sylwadau pellach ar ddull IGDC o nodi, cyflawni a monitro arbedion ariannol mewn darn o waith ar wahân y byddwn yn ei adrodd yn 2024.

## Dull corfforaethol o reoli ariannol

107 Gwnaethom ystyried a oes gan IGDC ddull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- rheolaethau effeithiol ar waith sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a Chynlluniau Cadw a Dirprwyo;
- y Bwrdd yn goruchwylio'n briodol y trefniadau a'r perfformiad sy'n ymwneud â chamau gweithredu tendr unigol, taliadau arbennig, colledion, a gwrth-dwyll;
- trefniadau rheoli ariannol effeithiol sydd ar waith sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall ysgogwyr costau a sut maent yn effeithio ar gyflawni amcanion strategol;
- cyflwynwyd datganiadau ariannol y sefydliad ar gyfer 2022-23 ar amser, nid oeddent yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol, a chawsant farn archwilio ddiamod.

108 Canfuom fod gan **IGDC drefniadau effeithiol yn gyffredinol ar gyfer goruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol**.

109 Mae gan IGDC ddull weddol effeithiol o oruchwylio a chraffu ar reolaeth ariannol. Yn ystod 2023-24, roedd adolygiadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o gynaliadwyedd ariannol a system rheoli stoc TG a weithredwyd yn ddiweddar yn rhoi sgôr sicrwydd rhesymol. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i dderbyn adroddiadau o ansawdd da ar golledion a thaliadau arbennig, archebion prynu gwerth uchel, gweithgaredd caffael, gwrth-dwyll lleol, a chydymffurfio â Chynlluniau Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Rydym yn parhau i nodi'r gwaith craffu a goruchwylio priodol o'r wybodaeth a gyflwynir.

110 Mae gan IGDC ddealltwriaeth dda o'i ysgogwyr costau. Mae'r Cynllun Ariannol yn amlinellu sawl buddsoddiad angenrheidiol fel symud y Ganolfan Ddata a buddsoddiadau seiber cenedlaethol ac yn tynnu sylw at y cynnydd i gostau'r

Cytundeb Lefel Gwasanaeth i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol gwasanaethau digidol. Mae'r cynnydd hwn, ar y cychwyn, wedi arwain at rai cyrff iechyd yn gwrthod cytuno i'r cynnydd mewn gofynion cyllido. Er ein bod yn deall bod y sefyllfa bellach wedi'i datrys, gall y risg hon ddod i'r amlwg yn y blynyddoedd i ddod, yn dibynnu ar y risgiau ariannol sylweddol sy'n wynebu GIG Cymru. Felly, bydd angen i IGDC sganio'r gorwel yn barhaus o ran ei amgylchedd mewnol ac allanol i sicrhau ei fod wedi'i baratoi'n ddigonol pe bai'r risg ariannol hon yn digwydd. Hefyd, fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n hanfodol bod y sefydliad yn glir ynghylch ei flaenoriaethau a'r hyn y gellir ei gyflawni gyda'i adnoddau sydd ar gael (**gweler paragraff 84**).

111 Paratowyd datganiadau ariannol IGDC i safon dda a'u cyflwyno i'w harchwilio ar 4 Mai 2023. Nododd ein harchwiliad ddau gamddatganiad perthnasol, a gywirwyd gan IGDC, ac ystyriwyd y datganiadau ariannol diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 17 Gorffennaf 2023. Gwnaethom gyhoeddi barn ddiamod ar y datganiadau ariannol ar 28 Gorffennaf 2023.

## Trosolwg y bwrdd ar berfformiad ariannol

112 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn craffu ar berfformiad ariannol yn briodol. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:

- mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau cywir, tryloyw ac amserol ar berfformiad ariannol, yn ogystal â'r heriau ariannol, risgiau, a gweithredoedd lliniaru allweddol;
- mae'r Bwrdd yn craffu ar asesiadau parhaus o sefyllfa ariannol y sefydliad yn briodol.

113 Canfuom fod **gwaith craffu ariannol a throsolwg priodol ar hyn o bryd, ond efallai y bydd angen cynyddu hyn yng ngoleuni'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sefydliad**.

114 Mae perfformiad ariannol yn cael ei adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Mae adroddiadau cyllid yn darparu digon o wybodaeth i alluogi craffu a herio, gan gynnwys sylwadau manwl ar gyflawni cynlluniau arbedion. Cynhaliwyd astudiaeth ddofn o risgiau ariannol gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Hydref 2022, a arweiniodd at graffu da, trafod a dadlau, a darparu haen ychwanegol o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch risgiau ariannol.

115 Mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod y sefyllfa ariannol heriol y mae IGDC yn ei hwynebu. Trwy ein gwaith arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2023, rydym wedi gweld cynnydd yn lefel y craffu ar berfformiad ariannol a chyflawni arbedion yn benodol. Er ei bod yn ymddangos bod hyder y bydd IGDC yn sicrhau cydbwysedd ariannol eleni, efallai y bydd yn dymuno ystyried cyflwyno eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd i drafod perfformiad ariannol a risgiau yn amlach.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Mae Arddangosyn 2 isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod**

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:<br>• Y Bwrdd Cyhoeddus;<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol;<br>• Sesiwn Datblygu'r Bwrdd. |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cylchoedd Gorchwyl,  rhaglenni gwaith, agendâu, papurau a chofnodion y Bwrdd a Phwyllgorau;<br>• dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Cynlluniau Dirprwyo, Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, Cofrestrau o Fuddiannau, a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch;<br>• strategaethau a chynlluniau sefydliadol allweddol, gan gynnwys y CTCI;<br>• dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol;<br>• adroddiadau allweddol sy'n ymwneud â pherfformiad a materion ariannol y sefydliad;<br>• Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;<br>• polisïau a gweithdrefnau perthnasol;<br>• adroddiadau a baratowyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Arolygiaeth Gofal ac Iechyd Cymru, y Gwasanaeth Gwrth-Dwyll Lleol, a chyrff allanol perthnasol eraill. |

| Elfen o'r dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r Uwch Swyddogion a'r Aelodau Annibynnol canlynol:<br>• Cadeirydd IGDC;<br>• Y Prif Weithredwr;<br>• Ysgrifennydd y Bwrdd;<br>• Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau;<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid;<br>• Aelod Annibynnol/Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;<br>• Aelodau Annibynnol x 2. |

# Atodiad 2

## Cynnydd a wnaed ar argymhellion y flwyddyn flaenorol

**Mae arddangosyn 3 isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan IGDC wrth weithredu argymhellion o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol**

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
| --- | --- |
| **Dyddiadau targed a cherrig milltir mewn cynlluniau a strategaethau corfforaethol**<br>A1 Er bod CTCI 2022-25 a'r Cynllun Busnes cysylltiedig wedi'u hategu gan ddyddiadau targed clir a cherrig milltir, nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar gyfer cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill. Felly, dylai IGDC sicrhau bod yr holl gynlluniau a strategaethau corfforaethol wedi'u tanategu gan gynlluniau cyflawni manwl sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir i hwyluso proses effeithiol i fonitro cynnydd a sicrhau sicrwydd a chraffu priodol ar lefel Bwrdd. | Mae CTCI 2023-26 yn parhau i gael ei ategu gan Gynllun Busnes clir sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir. Rydym hefyd yn nodi rhywfaint o welliant yn lefel yr wybodaeth a ddarperir mewn strategaethau a chynlluniau corfforaethol ehangach megis y Strategaeth Gyfathrebu newydd sy'n cael ei seilio ar gynllun cyflawni manwl. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod y lefel hon o wybodaeth ar gael ar gyfer rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol presennol, fel y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol.<br>**Ar y gweill** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Cynaliadwyedd ariannol**<br>A2 Mae angen i drefniadau ar gyfer rheoli risgiau tymor canolig i hir i gyllid ac arbedion fod yn fwy gweladwy ar lefel Bwrdd. Felly, dylai IGDC sefydlu trefniadau i gyflawni'r canlynol:<br>a) dangos, drwy ei Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, ei fod wrthi'n rheoli'r risgiau tymor canolig a hir sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd model y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol;<br>b) darparu mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig a hir i gryfhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. | Er bod y materion ynghylch cymhlethdod model cyllido'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol yn parhau, rydym yn deall bod IGDC a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos i gytuno ar fodel ariannu cenedlaethol a lleol mwy cynaliadwy. Rydym hefyd yn nodi bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys y model cyllido fel risg ac yn mynegi rhai rheolaethau a chamau lliniaru lefel uchel.<br><br>Bu rhywfaint o gynnydd hefyd wrth fynd i'r afael â chydbwysedd arbedion cylchol ac anghylchol, ond mae'n dibynnu gormod o hyd ar gadw swyddi gwag agored (£1.764m) i gyflawni'r targed arbedion cyffredinol. Mae hyn yn parhau i fod yn risg pe bai'r sefydliad yn recriwtio i'r swyddi gwag.<br>**Ar y gweill** |

| Argymhelliad | Disgrifiad o'r cynnydd |
|---|---|
| **Rheoli asedau corfforol**<br>A3 Ar wahân i adroddiadau Archwilio Mewnol yn y maes hwn, nid yw'r Bwrdd na'i bwyllgorau yn cael sicrwydd arall ynghylch rheoli asedau ffisegol IGDC. Felly, dylai IGDC fynd ati o bryd i'w gilydd i ddarparu adroddiadau sicrwydd ar gyfer y Bwrdd neu'r pwyllgor perthnasol fod ei asedau ffisegol (dros werth penodol a/neu sydd mewn perygl o gael eu camddefnyddio) yn cael eu rheoli'n dda. | Mae adroddiadau ystadau a chydymffurfiaeth yn parhau i fod yn eitem sefydlog yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae IGDC yn ymgymryd â dilysiadau blynyddol o'r holl asedau cyfalaf cyfredol a bydd yn darparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd sy'n amlygu asedau a ychwanegwyd ac a waredwyd.<br>**Ar y gweill** |

# Atodiad 3

## Ymateb sefydliadol i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 4: Ymateb Iechyd a Gofal Digidol Cymru i'n hargymhellion archwilio**

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Mae Cadeirydd y Bwrdd yn bwriadu cadeirio'r Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni newydd. Er bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol, o ystyried pa mor newydd yw'r Pwyllgor a'i gylch gwaith, dylai'r trefniant hwn fod â chyfyngder amser er mwyn rhyddhau capasiti'r Cadeirydd, a chefnogi llif sicrwydd annibynnol ac effeithiol. Dylai IGDC geisio penodi cadeirydd i'r Pwyllgor o'r garfan ehangach o Aelodau Annibynnol. **(Blaenoriaeth Uchel)** | Cadeirydd y Bwrdd oedd cadeirydd y Pwyllgor Cyflawni Rhaglenni cyntaf, er mwyn sicrhau sefydlu'r Pwyllgor tra oedd yn ifanc. Mae'r trefniant hwn yn drefniant â chyfyngder amser er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth i'r trefniadau llywodraethu newydd. Y cynllun o ddechrau 2024 yw trosglwyddo swydd Cadeirydd y Pwyllgor i Aelod Annibynnol. | Ebrill 2024 | Cadeirydd IGDC |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Mae cyfarfodydd bwrdd yn parhau i gynnwys eitem ar yr agenda ar wrando a dysgu, sy'n rhoi rhywfaint o fewnwelediadau i aelodau'r Bwrdd ar effaith digidol ar ddefnyddwyr gwasanaethau clinigol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn parhau i gryfhau'r trefniadau hyn ymhellach. Felly, dylai IGDC ymgysylltu â chyrff iechyd eraill neu Llais Cymru, i archwilio opsiynau er mwyn i aelodau'r Bwrdd glywed yn uniongyrchol oddi wrth ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol. **(Blaenoriaeth Ganolig)** | Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod eitem y Bwrdd ar wrando a dysgu'n cynnwys clywed yn uniongyrchol oddi wrth wasanaethau clinigol a lle bo hynny'n bosibl oddi wrth ddinasyddion, caiff y mewnbwn hwn ei fonitro.<br><br>Mae trefniadau i glywed yn fwy uniongyrchol oddi wrth ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau clinigol yn cael eu harchwilio, fodd bynnag, dylid nodi nad yw IGDC yn gallu bwrw ymlaen â'r cyfleoedd hyn ar ei ben ei hun, ac mae angen cydweithrediad a chytundeb gan gyrff partner a dinasyddion. Adborth llais dinasyddion i'w flaenoriaethu unwaith y bydd Ap GIG Cymru wedi'i lansio'n gyhoeddus (Gwanwyn 2024). | Mawrth 2024 – bydd yr Adroddiad Blynyddol Gwrando a Dysgu a Rennir yn cynnwys asesiad o fewnbwn gan bartneriaid/defnyddwyr gwasanaethau.<br><br>Mawrth 2025 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Mae IGDC yn wynebu heriau adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau CTCI, ac efallai y bydd cwmpas ei waith trawsnewidiol arfaethedig yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar adeg o gyfyngiadau ariannol sylweddol ar draws y GIG yng Nghymru. Yng ngoleuni'r heriau hyn, dylai IGDC wneud y canlynol:<br>a) Bwrw ymlaen â'i waith 'cynnig gwerth' yn gyflym i ddangos effaith digidol ar draws GIG Cymru. **(Blaenoriaeth Uchel)**<br>b) Datblygu cynlluniau cyn gynted â phosibl sy'n ystyried ei flaenoriaethau mewnol ei hun a rhai rhanddeiliaid yn ofalus a'r hyn y gall ei gyflawni o fewn ei amlen adnoddau. **(Blaenoriaeth Uchel)** | A) Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Chyfarwyddwyr y Grŵp Cymheiriaid Digidol i gwblhau'r cynnig gwerth cenedlaethol ar gyfer gwaith digidol.<br>B) Ystyrir blaenoriaethau a chyfyngiadau adnoddau fel rhan o gylch datblygu blynyddol CTCI. Cymeradwyodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith CTCI wedi ei ddiweddaru a dyraniadau ariannol ym mis Rhagfyr 2023. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i gynllunio’r gwaith cyflawni o fewn ein hamlen adnoddau a ragwelir. Bydd cyflawni yn cael ei adolygu yn erbyn blaenoriaethau a phwysau yn ystod y flwyddyn drwy gydol y flwyddyn, gyda diweddariadau rheolaidd i'r Bwrdd. | Medi 2024<br><br>Medi 2024 | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y sefydliad<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| A4 | Er bod rhai strategaethau a chynlluniau corfforaethol wedi'u seilio ar gynlluniau busnes/cyflawni clir, nid yw hyn yn wir am bob un ohonynt. Ar ben hynny, mae lle i wella ansawdd ac amlder yr adroddiadau diweddaru strategaeth a gyflwynir i'r Bwrdd. Dylai IGDC felly wneud y canlynol:<br>a) Sicrhau bod yr holl gynlluniau corfforaethol a strategaethau yn cael eu tanategu gan gynlluniau busnes/cyflawni manwl sy'n cynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir i hwyluso monitro cynnydd effeithiol a sicrhau sicrwydd a chraffu lefel Bwrdd priodol. **(Blaenoriaeth Ganolig)**<br>b) Gwella ansawdd adroddiadau diweddaru strategaeth i'r Bwrdd a chynyddu amlder trosolwg i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod strategaethau a chynlluniau corfforaethol yn cyflawni'r effaith a'r buddion a ddymunir. **(Blaenoriaeth Ganolig)** | A) Bydd gan strategaethau a chynlluniau corfforaethol newydd sy'n mynd i'r Bwrdd gynlluniau busnes/cyflawni gan gynnwys dyddiadau targed a cherrig milltir ac amlder adrodd i'r Bwrdd neu Bwyllgor o'r Bwrdd a gytunwyd (os na chânt eu cipio drwy'r CTCI) a'u hychwanegu at y Blaengynllun Gwaith perthnasol.<br>B) Bydd yr holl strategaethau a chynlluniau corfforaethol presennol yn cael eu mapio i'r Bwrdd neu is-bwyllgor y Bwrdd i asesu pa mor aml yr adroddir ac i ddiweddaru Blaengynlluniau Gwaith lle bo angen gan ganolbwyntio ar gyrraedd cerrig milltir er mwyn cyflawni effaith a buddion. Bydd hyn trwy'r CTCI os caiff ei dracio trwy'r mecanwaith hwn, fel arall fe'u cyflwynir trwy gynllun gweithredu. | Mawrth 2024<br>Mawrth 2024 | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | **Ymateb y sefydliad**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ar y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|---|
| A5 | Er bod IGDC wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth fynd i'r afael â chydbwysedd arbedion cylchol ac anghylchol, mae'n dal i orddibynnu ar arbedion swyddi gwag er mwyn cyflawni ei darged arbedion cyffredinol. Mae hyn yn parhau i fod yn risg pe bai'r sefydliad yn recriwtio i'r swyddi gwag, yn enwedig o ystyried y sefyllfa o ddiffyg a ragwelir ar gyfer 2024-25 a 2025-26. Felly, dylai IGDC roi mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch datblygu a chyflawni arbedion cylchol yn y tymor canolig i'r tymor hir i gryfhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad yn y dyfodol. **(Blaenoriaeth Uchel)** | Mae'r sefyllfa o ddiffyg tymor byr sy'n deillio o chwyddiant ac ynni digidol yn cael ei gydnabod yn ein dyraniad cyllido. Gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru rydym yn dylunio model cyllid a gweithredu IGDC sy'n galluogi catalog cynnyrch a gwasanaeth a alluogir gan system gwmwl. Bydd hyn yn manteisio ar ein cymwyseddau a'n gwybodaeth ddigidol ac yn creu gwerth system neu well effeithlonrwydd gweithredol. Y bwriad yw y byddai'r trefniant hwn ar waith ar gyfer yr CTCI yn 2025-26. | Mawrth 2025 | Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol/ Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh and English